




Cadeirlan Deiniol Sant  
ym Mangor  
Saint Deiniol's Cathedral  
in Bangor

# Dodrefn Corff yr Eglwys newydd New Nave furniture



## Cyflwyniad

Canon Siôn B. E. Rhys Evans  
Is-Ddeon

**Yma yng Nghadeirlan Deiniol Sant, rydym ni'n etifeddion heneb o bwys, ar safle sy'n dyddio'n ôl i Oes y Saint, ac i furiau sy'n sibrawd am Gruffydd ap Cynan ac Owain Glyndŵr, am Tomas Ysgefitwn a'r holl addolwyr a cherddorion a phererinion a fu yma dros genedlaethau lawer. Cawn yn yr hanes dwfn hwnnw adlais o drosgynoldeb ein Duw digyfnwid.**

Mae ein Cadeirlan hefyd yn adeilad sydd wedi newid dros y canrifoedd. "Tir glas fu," canodd y bardd, Dafydd Trefor, yn gynnar yn yr unfed ganrif ar bymtheg, o sefyll yng Nghorff yr Eglwys a oedd newydd ei thoi. Pan ymwelodd George Gilbert Scott am y tro cyntaf â Bangor, barnodd nad oedd yma "ddim byd gwerth ei weld ond tair bwtres," ac arweiniodd waith ailddatblygu ac addurno sylweddol ar y Gadeirlan. Mewn gwirionedd, y mae pob cenedlaeth wedi gadael ei hôl ar wead ein Cadeirlan, rhai trwy esgeulustod, ond y mwyafrif trwy eu gofal a'u dyheu am adeilad addas i'r pwrpas o gyhoeddi'r Efengyl yn eu hoes bresennol.

## Introduction

Canon Siôn B. E. Rhys Evans  
Sub-Dean

**We are inheritors here at Saint Deiniol's Cathedral of an ancient building, on a site that dates back to Deiniol's days, and whose stones speak to us of Gruffydd ap Cynan and Owain Glyndŵr, of Thomas Skeffington and the faithful worshippers, music-makers and pilgrims of many generations. We find in that deep history an echo of the transcendence of our unchanging God.**

Our Cathedral is also a building that has changed over the centuries. "Here was grass," wrote the poet, Dafydd Trefor, early in the sixteenth century, standing in the recently roofed Nave. George Gilbert Scott, on first visiting Bangor, judged that there was "nothing worth seeing but three buttresses," and instigated a substantial redevelopment and decoration of the Cathedral. In truth, every generation has left its mark on our Cathedral's fabric, some through neglect, but more through their care and their yearning to have a building fit for the purpose of proclaiming the Gospel in their present age.

## Ein cyfraniad

Un o'r cyfraniadau a wnawn ni yn y genhedlaeth hon yw darparu dodrefn newydd yng Nghorff yr Eglwys. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Cabidwl y Gadeirlan wedi bod yn gweithio gyda Luke Hughes, un o ddylunwyr mwyaf blaenllaw'r byd o ddodrefn pwrpasol ar gyfer adeiladau cyhoeddus, i greu cynllun cynhwysfawr o ddodrefn newydd ar gyfer Corff yr Eglwys. Gobeithiwn y bydd y celfi newydd, yr ydym wedi cael blas arnynt mewn modelau a dogfennaeth yn ystod y misoedd diwethaf, yn cyrraedd y Gadeirlan mewn pryd ar gyfer yr Wythnos Fawr eleni, ac mae'r llyfryn hwn yn cynnig trosolwg o'r hyn y gallwn ei ddisgwyl.

## Pam y newid?

Mae'r prif gymhellant ar gyfer dodrefn newydd Corff yr Eglwys yn ddeublyg.

Yn gyntaf, gallwn lawenhau bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o adeilad y Gadeirlan – nid yn unig ar y Sul, ond yn ystod yr wythnos. O'n defodau litwrgaidd dyddiol i ddatganiadau cerdd, ac o gyngherddau i grwpiau plant bach ac ymweliadau ysgol, mae ein Cadeirlan yn fwrlwm o weithgareddau bob dydd o'r wythnos. Mae ein celfi presennol yng Nghorff yr Eglwys yn fwriadol drwm a sefydlog, ac wedi eu cynllunio i raddau helaeth ar gyfer arddull addoli Mudiad Cymun Plwyfol canol y ganrif ddiwethaf yn unig. Mae'n golygu bod addasu cynllun Corff yr Eglwys ar gyfer cyngherddau, datganiadau a

defnyddiau eraill – ac yna ail-osod Corff yr Eglwys ar gyfer addoliad – yn feichus, ac weithiau'n niweidiol ac yn beryglus. Mae angen dodrefn Corff yr Eglwys arnom a all fod yn hyblyg.

Yn ail, nid yw addasiadau litwrgaidd y degawdau diwethaf wedi dod law yn llaw ag addasiadau cydlynol i gynllun dodrefnu Corff yr Eglwys. Tra bod Cwîr a Sentwar Scott wedi'i ddylunio'n hyfryd ac yn gyfannol ar gyfer y Gosber, mae'r dodrefn a ddefnyddiwn yng Nghorff yr Eglwys wedi'u rhoi at ei gilydd mewn ffordd braidd yn chwit chwat dros y blynyddoedd. Dylai adeilad o'r pwysigrwydd hwn, ac addoliad Duw o'i fewn, gael ei gynnal a'i gefnogi gan ddodrefn hardd, wedi eu dylunio'n arbennig ar gyfer y gofod hwn ac i'n defnydd ni gyda gofal a manwl gywirdeb. Mae cynllun Luke Hughes, a amlinellir dros y tudalennau hyn, yn cynnig celfi y gellir eu defnyddio'n hyblyg, ond sydd hefyd yn rhan o gynllun pwrpasol ar gyfer ein Cadeirlan ac wedi'u cynhyrchu i'r safonau uchaf.

## Camau nesaf

Edrychwn ymlaen at ddyfodiad y dodrefn newydd yn ddiweddarach y Grawys hwn.

Gweddiwch dros y seiri a'r dylunwyr sy'n gweithio ar ein dodrefn dros yr wythnosau nesaf, ac am y gwaith o osod y dodrefn newydd yn y Gadeirlan.

Gweddiwch hefyd am y defnydd a wneir o'r celfi newydd, i addoli Duw ac i gefnogi cenhadaeth a thystiolaethu ein Cadeirlan.

## Our contribution

One of the contributions to be made in this, our generation, is to be new Nave furniture. Over the last year, the Cathedral Chapter has been working with Luke Hughes, one of the world's foremost designers of bespoke furniture for public buildings, on a comprehensive scheme of new Nave furniture. The new furniture, of which we have had a taste in mockups and documentation over recent months, will, we hope, arrive at the Cathedral in time for our observance of Holy Week this year, and this booklet offers an overview of what we can expect.

## Why the change?

The primary motivation for the new Nave furniture is two-fold.

First, we can rejoice that more use is being made of the Cathedral building – not only on Sundays, but during the week. From our daily liturgical observances through recitals and concerts to toddler groups and school visits, our Cathedral is buzzing with activity every day of the week. Our existing furniture in the Nave is intentionally heavy and static, and designed in large part solely for the worshipping style of the Parish Communion Movement of the middle of the last century. It means that adapting the layout of the Nave for concerts, recitals and other uses – and then restoring the Nave for worship – is cumbersome, and sometimes damaging and dangerous. We need Nave furniture that can be flexible.

Secondly, the liturgical adaptations of recent decades have not been accompanied by coherent adaptations to the Nave furnishing scheme. Whereas Scott's Quire and Presbytery is beautifully and holistically designed for Evensong, the furniture we use in the Nave has been assembled together in a rather ad hoc way over the years. A building of this importance, and the worship of God within it, ought to be supported by beautiful furnishings, designed for this space and for our use with care and precision. The Luke Hughes scheme, outlined over these pages, offers us furniture that can be flexibly deployed, but which is also a bespoke design for our Cathedral, produced to the highest standards.

## Next steps

We look forward to the arrival of the new furniture later this Lent.

Please pray for the carpenters and designers at work on our furniture over these coming weeks, and for the work during Passiontide to install the new furniture at the Cathedral.

Please pray also for the use that will be made of the new furniture, for the worship of God and to support the mission and witness of our Cathedral.

**Y cynllun cyfansawdd**  
The total scheme





Mae'r cynllun cyfan yn cynnwys meinciau, corau'r côr (gyda darlithell arweinydd), bwrdd yr allor (gyda chadeiriau Gweinidogion, credfyrddau a darllenfa), a chadeiriau ychwanegol (na welir yma).

The total scheme includes new pew-benches, Choir stalls (with a conductor's stand), an altar-table (with accompaning Ministers' chairs, credence tables and lectern), and additional chairs (not shown here).

**Meinciau**  
Pew benches








Mae gan ein meinciau newydd (a ddangosir yma yn cael eu pacio yn y gweithdy) gefnau uchel a sedd ddofn, a byddant yn cynnwys panel efydd yn seiliedig ar ddyluniad ffens cyll (y “bangor” gwreiddiol).

Our new pew-benches (shown here being packed for delivery at the workshop) have high backs and a deep seat, and will include a bronze panel based on a hazel fence design (the original “bangor”).

Gellir storio ein meinciau newydd mewn pentyrrau o 5/6 (fel y maent i'w gweld yma, yn teithio o'r gweithdy), sy'n golygu y gellir clirio llawr Corff yr Eglwys yn hawdd pan fydd angen hynny.

Our new pew-benches will stack, 5 or 6 high (as they are stacked here leaving the workshop), meaning that the floor of the Nave can be cleared away easily when use requires it.




The image shows the interior of a large stone cathedral. The architecture features high, pointed Gothic arches supported by massive, cylindrical stone pillars. The floor is made of large, light-colored stone tiles. In the foreground and middle ground, rows of dark wooden pews are arranged in a central aisle. A group of four people, including a man in a light blue shirt and a woman in a bright pink jacket, are standing in the aisle, looking towards the camera. The background shows the continuation of the nave towards a distant altar area.

Mae ein meinciau newydd wedi'u staenio i gyd-fynd â seddau'r Cwîr a tho Corff yr Eglwys, ac, o'u gosod yn ffurfiol mewn parau, byddant yn rhoi naws draddodiadol i'r Gadeirlan, yn debyg i'r hyn a welir yma.

Our new pew-benches are stained to match the Quire stalls and the Nave roof, and, when laid out formally in pairs, will give a traditional feel to the Cathedral, similar to that seen here.

Corau'r Côr  
Choir stalls






Mae ein corau'r Côr newydd ac ysgafnach wedi'u staenio i gyd-fynd â'r meinciau, ac yn ymgorffori'r dyluniad efydd "bangor".

Our new, lighter Choir stalls, are stained to match the pew benches, and incorporate the bronzed "bangor" design.

Bwrdd yr allor  
Altar-table





Mae ein bwrdd yr allor newydd wedi'i gynllunio i beidio â chystadlu â phensaernïaeth yr adeilad, sy'n dwyn y llygad i'r pen dwyreiniol, gan falchïo yn ei natur "dros dro", ond ag urddas.

Our new altar-table is designed not to compete with the Cathedral's architecture, which draws the eye to the East end, owning its temporary nature, but with dignity.

**John Everett Millais**  
Crist yn nhŷ ei rieni  
Christ in his parents' house







**Caiff ein bwrdd yr allor newydd beth o'i ysbrydoliaeth o fainc saer – bwrdd gwaith â'i ddiben arbenigol; a chyfeiriad at weithdy Nazareth.**

Our new altar-table draws some of its inspiration from a carpenter's bench – a working table with its particular, expert purpose; and a reference to the Nazareth workshop.

Leonardo da Vinci  
Y Swper Olaf  
The Last Supper



Caiff ein bwrdd yr allor newydd hefyd beth o'i ysbrydoliaeth o ddarluniau traddodiadol o'r Swper Olaf, pan fydd Crist a'i ddisgyblion yn ein hwynebu, yn sefydliad y Cymun, wrth fwrdd â choesau tressel.

Our new altar-table also draws some of its inspiration from traditional depictions of the Last Supper, when Christ and his disciples face us, at the Eucharist's institution, at a table with tressel legs.



## Yr arysgrif | O'r graig las daw'n fras ddyfrhau holl lynnoedd gloyw'n llannau

Ar "wefus" tu blaen bwrdd yr allor, bydd brawddeg o farddoniaeth grefyddol yn Gymraeg yn cael ei gerfio. Mae'r ymadrodd wedi'i gyfansoddi ar ein cyfer gan Siôn Aled, y bardd coronog a aned ym Mangor.

Mae'r frawddeg, "**O'r graig las daw'n fras ddyfrhau holl lynnoedd gloyw'n llannau,**" yn cyfeirio at eiriau'r salmydd am brofiad yr Israeliaid yn yr anialwch ("Dygodd ffrydiau allan o graig, a pheri i ddŵr lifo fel afonydd;" Salm 78), sy'n dwyn i gof i ni hefyd, ar fwrdd yr allor, y dŵr yn llifo o ystlys Crist ar y Groes er ein hiachawdwriaeth. Mae i'r ymadrodd hefyd gyfeiriadau lleol at lechi Dyffryn Ogwen, yr afon Adda yn llifo ger "bangor" Deiniol, a llannau Oes y Saint. Mae'r ymadrodd hefyd dwyn ysbrydoliaeth o osodiad Edmwnd Prys (y clerigwr o Fangor ac un o genhedlaeth William Morgan a'r cyfeithwyr cyntaf) o Salm 78 yn ei *Salmau Cân*, a hynny ym mhedwarcnmlwyddiant ei farwolaeth.


Mae'r ffurfdeip a ddefnyddir ar gyfer y llythrennau aur ar gefndir glas wedi'i ddylunio'n arbennig ar ein cyfer, ac yn dwyn ei ysbrydoliaeth o lawysgrifau crefyddol Celtaidd canoloesol (fel Llyfr Esgobol Bangor), o'r llythrennau cerfiedig ar rai o'r meini hirion cynnar a geir ledled ein hesgobaeth (fel yr un a welir yn rhifyn cyfredol **Buchedd Bangor**), ac o'r defnydd arddulliedig Fictoraidd o sgrïpt ganoloesol (fel a geir yn seddau'r Cwîr).

## The inscription | From the blue slate abundance flows to fill afresh our llannau's wells

Into the front "return" or "lip" of the altar-table, a phrase of religious poetry in Welsh will be carved. The phrase has been composed for us by Siôn Aled, the Eisteddfod crowned bard who was born in Bangor.

Roughly translated as "**From the blue slate abundance flows to fill afresh our llannau's wells,**" the phrase draws on the psalmist's reference to the experience of the Israelites in the wilderness ("You brought streams out of the cliff, and the waters gushed out like rivers;" Psalm 78), which recalls for us also, upon the altar-table, the water flowing from the side of Christ upon the Cross for our salvation. The phrase also contains local allusions to the slates of the Ogwen Valley, the river Adda flowing past Deiniol's "bangor", and the "llannau" (the glades of the Celtic saints). The Welsh words also refer to the metrical psalms of Edmwnd Prys, the Bangor cleric who was part of the original generation of biblical translators and the 400th anniversary of whose death we mark this year.

The typeface used for the gold letters on a blue background, has been designed specially for us, and draws its inspiration from medieval Celtic religious manuscripts (such as the Bangor Pontifical), from the carved letters in some of the early standing stones found across our diocese (such as the one featured in the current issue of **Buchedd Bangor**), and from the Victorian stylized use of medieval script (such as is found in the Quire stalls).




Cadeiriau ychwanegol  
Additional chairs



Bydd ein cadeiriau ychwanegol newydd, y'u ddefnyddir pan fydd angen seddau i niferoedd mawr, yn pentyrru'n dynnach na'n cadeiriau presennol, a byddant wedi'u lliwio i gydweddu â waliau'r Gadeirlan.

Our new additional chairs, used when we need to seat large numbers, will stack more tightly than our existing chairs, and will be coloured to blend in with the Cathedral's walls.



## Beth fydd yn digwydd i'r dodrefn presennol?

Bydd y byrddau allor, y ddarlithfa eryr pres a'r cadeiriau hynafol a ddefnyddir ar hyn o bryd yng Nghorff yr Eglwys yn cael eu cadw a'u hadleoli o fewn y Gadeirlan.

Rydym wrth ein bodd y bydd y cadeiriau coch – y rhai parhaol a'r rhai sy'n plygu – yn cael cartref newydd yn Eglwys y Groes ym Maesgeirchen. Mae'n hyfryd y byddant yn parhau i gael eu defnyddio gan yr Eglwys yn ein dinas.

Bydd rhai o'r meinciau presennol yn cael eu hadleoli i'r Gangell a Chapel Mair. Bydd rhai yn cael eu haildefnyddio i wneud eitemau newydd o ddodrefn i gefnogi addoliad y Gadeirlan, megis stondin ar gyfer Croes Orymdeithiol.

### **Bydd gweddill y meinciau yn cael eu cynnig i'w gwerthu, i aelodau'r gynulleidfa i ddechrau, ac wedi hynny trwy arwerthiant lleol.**

Daw'r meinciau mewn tri hyd – tua 260cm, 310cm a 360cm. Y pris prynu, gan gynnwys danfoniad lleol, yw £150 y fainc.

Os hoffech fynegi diddordeb mewn prynu mainc, a rhoi eich enw ar bleidlais i gael cynnig y cyfle i brynu mainc, siaradwch â Chlerc y Cabidwl ([robertjones@eglwysyngnghymru.org.uk](mailto:robertjones@eglwysyngnghymru.org.uk)) neu ag aelod o dîm y Gadeirlan, gan nodi hyd y fainc fyddai orau gennyh. Mae croeso i chi nodi mwy nag un hyd. Nid yw mynediad i'r bleidlais yn rhwymedigaeth i brynu – os byddwch yn llwyddiannus yn y bleidlais, neu os nad oes angen pleidlais oherwydd y nifer sy'n cymryd rhan, cewch eich gwahodd i brynu mainc, ac, os byddwch yn gwrthod, cynigir y fainc i'r nesaf ar y rhestr.

Mynegwch ddiddordeb cyn diwedd Sul y Mamau, 19 Mawrth 2023.

## What will happen to the existing furniture?

The altar-tables, the brass eagle lectern and the antique chairs currently in use in the Nave will be retained and relocated within the Cathedral.

We're delighted that the red chairs – both permanent and folding – are to find a new home in Eglwys y Groes in Maesgeirchen. It is wonderful that they will continue to be used by the Church in our city.

Some of the existing pews will be relocated into the Chancel and the Lady Chapel. Some will be repurposed to make new items of furniture to support the worship of the Cathedral, such as a Processional Cross stand.

### **The remainder of the pews will be offered for sale, initially to members of the congregation, and thereafter through a local auction house.**

The pews come in three lengths – approximately 260cm, 310cm and 360cm. The purchase price, including local delivery, is £150 per pew.

If you would like to express an interest in purchasing a pew, and to place your name on a ballot to be offered the opportunity to purchase a pew, please contact the Chapter Clerk ([robertjones@churchinwales.org.uk](mailto:robertjones@churchinwales.org.uk)) or speak to a member of the Cathedral team, noting the length of pew you would prefer. Feel free to specify more than one length. Entry into the ballot is not an obligation to buy – if successful in the ballot, or if a ballot is unnecessary due to uptake, you will be invited to purchase a pew, and, if you decline, the pew will be offered to the next in line.

Please express an interest before the end of the day on Mothering Sunday, 19 March 2023.